

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL DIWYGIEDIG

## Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM), ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil"), yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 11 Mai 2022. Mae'r Bil i'w weld yma: <https://bills.parliament.uk/bills/3155>.
3. Ysgrifennais at y Llywydd ar 24 Mai i esbonio ei bod wedi cymryd amser i lawn ystyried yr effeithiau y bydd yr hyn a gynigir yn y Bil yn eu cael ar ddatganoli, a hynny oherwydd nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu fawr ddim â ni cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ac oherwydd bod y Bil yn un cymhleth. O'r herwydd, nid oedd modd gosod yr LCM hwn o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos a bennir yn RhS29. Ar 28 Medi, gosodais LCM ar y Bil fel yr oedd wedi'i gyflwyno. Rwyf wedi gosod heddiw yr LCM diwygiedig hwn i ddelio â phwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wrth iddynt ystyried yr LCM gwreiddiol. Mae'r LCM diwygiedig hwn yn adlewyrchu'r Bil fel y cafodd ei gyflwyno.
4. Os caiff gwelliannau perthnasol eu cyflwyno neu os cytunir arnynt at ddibenion RhS29, gosodaf femoranda eraill yn unol â'r Gorchmynion Sefydlog.

## Amcanion Polisi

5. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcan o ran polisi yw gwrthdroi gwahaniaethau daearyddol rhwng rhannau gwahanol o'r DU drwy rannu cyfleoedd yn fwy cyfartal. Mae pedwar amcan cyffredinol i'r Bil:
  - i. Gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i bennu, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at sicrhau ffyniant bro drwy leihau gwahaniaethau daearyddol ar draws y Deyrnas Unedig;
  - ii. Creu fframwaith modern i gefnogi'r broses fwyaf radical a welwyd yn yr oes sydd ohoni i ddatganoli pwerau drwy greu model newydd o awdurdodau sirol cyfun i gefnogi'r gwaith o wireddu cenhadaeth ffyniant bro Llywodraeth y DU, sef, erbyn 2030, y bydd gan bob rhan o Loegr sydd am gael cytundeb o'r fath, gytundeb datganoli fydd â phwerau ar y lefel uchaf o ddatganoli, neu'n agos at y lefel honno, a setliad ariannu syml a hirdymor;
  - iii. Darparu cyfres newydd o bwerau i'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru adfywio'u trefi drwy arwerthiannau rhentu ar y stryd fawr, ynghyd â diwygiadau i'r broses prynu gorfodol er mwyn helpu gyda'r gwaith o wireddu cenhadaeth ffyniant bro Llywodraeth y DU, sef, erbyn 2030, y bydd yr

ymdeimlad o falchder mewn lle, megis boddhad pobl â chanol eu trefi a'u hymdeimlad o ymgysylltiad â'r diwylliant a'r gymuned leol, yn uwch ym mhob rhan o'r DU, ac y bydd y bwlb rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn cau';

- iv. Creu system gynllunio a fydd yn darparu cartrefi mwy prydferth a gwyrddach, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig a'r gefnogaeth ddemocrataidd y mae cymdogaethau'n dymuno'u cael ac yn eu haeddu.

## **Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
7. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu cenadaethau ffyniant bro ac ar gyfer adrodd ar hynt y gwaith o wireddu'r cenadaethau hynny. Mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â democratiaeth leol; cynllunio gwlad a thref; Ardoll Seilwaith Cymunedol; gosod Ardoll Seilwaith; adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer cydsyniadau a chynlluniau penodol; adfywio; prynu tir yn orfodol; gwybodaeth a chofnodion sy'n ymwneud â thir, yr amgylchedd neu dreftadaeth; darparu bod trwyddedau palmentydd yn barhaol; llywodraethiant Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig; crwydraeth a chardota; ac at ddibenion cysylltiedig.

## **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Dyma'r cymalau sy'n arbennig o berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

### **Rhan 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro)**

#### **Pennu cenadaethau**

##### Cymal 1 Datganiad am genadaethau ffyniant bro

9. Mae'r cymal yn gosod dyletswydd ar un o weinidogion y goron i baratoi ac i osod datganiad am genadaethau ffyniant bro gerbron Senedd y DU. Bydd y datganiad hwnnw'n amlinellu'r amcanion ("cenadaethau ffyniant bro") y bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu bwrw ymlaen â nhw er mwyn lleihau gwahaniaethau daearyddol yn y Deyrnas Unedig. Ceir gosod y datganiad am gyfnod na fydd yn llai na phum mlynedd (cyfnod y genhadaeth). Mae'r ddarpariaeth hefyd yn darparu diffiniadau perthnasol, cyfnod amser a dyddiad targed y genhadaeth a sut y bydd cynnydd wrth wireddu'r cenadaethau hynny yn cael ei fesur.

#### **Adrodd ar genadaethau**

##### Cymal 2 Adroddiadau blynyddol etc ar wireddu cenadaethau ffyniant bro

10. Mae'r cymal yn sefydlu'r rhwymedigaeth i baratoi'r adroddiad blynyddol ac mae'n diffinio'r gofynion o ran yr hyn sydd i'w gynnwys ynddo (gan gynnwys asesiad o'r cynnydd a fydd wedi'i wneud, y camau a fydd wedi neu yn cael eu cymryd er mwyn gwireddu'r genhadaeth). Caiff yr adroddiad nodi hefyd nad oes bwriad i fwrw ymlaen â chenhadaeth mwyach, a pham.

### Cymal 3 Adroddiadau: Craffu gan Senedd y DU a chyhoeddi

11. Mae'r cymal yn ei gwneud yn ofynnol i bob adroddiad gael ei osod gerbron Senedd y DU ac mae'n nodi'r amseroedd ar gyfer gwneud hynny.

### **Adolygu methodoleg a metrigau neu ddyddiadau targed**

#### Cymal 4 Newidiadau i fethodoleg a metrigau mesur y cynnydd a wneir ar genadaethau neu newidiadau i ddyddiadau targed

12. Mae'r Cymal yn darparu'r gallu i ddiwygio'r fethodoleg a'r metrigau ar gyfer y cenadaethau ffyniant bro neu i ddiwygio'r dyddiadau targed ar gyfer gwireddu'r genhadaeth yng nghanol yr adegau adrodd arferol.

### **Adolygu cenadaethau**

#### Cymal 5 Adolygu datganiadau am genadaethau ffyniant bro

13. Mae'r cymal yn darparu ar gyfer adolygu'r datganiad am genadaethau ffyniant bro o bryd i'w gilydd ac mae'n diffinio'r telerau ar gyfer adolygiadau o'r fath. Diffinnir diben yr adolygiad, a dywedir y dylai'r adolygiad ystyried a yw'r cenadaethau ffyniant bro yn cyflawni eu hamcanion, a ddylid bwrw ymlaen â nhw ai peidio neu a ddylid pennu cenadaethau newydd yn eu lle.

### **Cyffredinol**

#### Cymal 6 Dehongli Rhan 1

14. Mae'r cymal yn cynnwys rhestr o ddiffiniadau perthnasol sydd i'w gweld yn y Bennod, gan gynnwys "gwahaniaethau daearyddol" y mae cenadaethau'n ymwneud â nhw: diffinnir "gwahaniaethau daearyddol" fel gwahaniaethau daearyddol o ran cyfleoedd neu ganlyniadau economaidd, cymdeithasol neu eraill.

### **Rhan 3 (Cynllunio)**

#### **Pennod 1 (Data Cynllunio)**

#### Cymal 75 Pŵer mewn perthynas â phrosesu data cynllunio

15. Mae'r cymal yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio sut y mae awdurdodau cynllunio perthnasol yn prosesu data cynllunio. Diben hynny yw creu safonau data cymeradwy a rhwymol ar gyfer y prosesu hwnnw. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cynllunio perthnasol ei gwneud yn ofynnol i ddata cynllunio gael eu darparu ar eu cyfer yn unol â'r safonau data cymeradwy perthnasol. Diffinnir awdurdod cynllunio perthnasol yng nghymal 81.

#### Cymal 76 Pŵer mewn perthynas â darparu data cynllunio

16. Mae'r cymal yn caniatáu i awdurdod cynllunio perthnasol ei gwneud yn ofynnol, drwy gyhoeddi hysbysiad, i berson ddarparu data cynllunio sy'n cydymffurfio â safon data cymeradwy. Mae'r cymal hefyd yn nodi eithriadau o ran pryd na chaiff awdurdodau cynllunio osod gofynion o'r fath, gan gynnwys ar y Goron a'r Llysoedd.

#### Cymal 77 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddata cynllunio penodol fod ar gael i'r cyhoedd

17. Mae'r cymal yn caniatáu i reoliadau data cynllunio wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol ganiatáu i'w ddata cynllunio, fel y'u

pennir yn y rheoliadau, fod ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd o dan drwydded gymeradwy.

#### Cymal 79 Nid yw datgelu data cynllunio yn torri hawlfraint mewn achosion penodol

18. Nod y cymal yn egluro nad yw awdurdod cynllunio perthnasol neu berson yn torri hawlfraint pan fydd yr awdurdod neu'r person hwnnw yn trefnu bod data cynllunio, sy'n cynnwys deunydd hawlfraint at ddibenion rhagnodedig, ar gael.

#### Cymal 80 Gofynion i ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig

19. Mae'r cymal yn darparu mai dim ond ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar ddata cynllunio ac ynddynt ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae cymhwysedd datganoledig yn cynnwys cymhwysedd deddfwriaethol, cymhwysedd gweithredol, a rhoi, addasu neu ddileu un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, awdurdod Cymreig datganoledig neu berson sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur y gellid eu rhoi drwy ddarpariaeth gan y Senedd.

#### Cymal 81 Dehongli Pennod

20. Mae'r cymal yn darparu diffiniadau o dermau allweddol a ddefnyddir ym Mhennod 1 (Data Cynllunio). Mae'r rhan fwyaf o'r diffiniadau ar gyfer awdurdodau cynllunio perthnasol yn cwmpasu cyrff sy'n gweithredu yn Lloegr, neu mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Diffinnir "awdurdod cynllunio lleol" gan gyfeirio at adran 15LH o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ddarpariaeth a fewnosodir gan adran 87 o'r Bil ac Atodlen 7 iddo, ac sy'n cynnwys cynghorau yn Lloegr. Yn yr un modd, mae awdurdod cynllunio perthnasol yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol pan fydd yn gweithredu o dan 'ddeddfiad cynllunio perthnasol', a phan fo gan yr Ysgrifennydd Gwladol swyddogaethau o'r fath, caiff y swyddogaethau hynny fod yn gymwys i Gymru, ond mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o 'ddeddfiad cynllunio perthnasol' yn cynnwys Rhan 5 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol) o'r Bil. Fel y mae'r cymal wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae'n darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael arfer swyddogaethau mewn meysydd datganoledig yng Nghymru.

### **Pennod 4 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio)**

#### Cymal 96 (Pleidleisiau Strydoedd)

21. Mae'r cymal yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth, drwy gyfrwng rheoliadau, ar gyfer system sy'n caniatáu i drigolion stryd gynnig datblygiad ar eu stryd a phenderfynu, drwy bleidlais, a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad hwnnw ai peidio, ar yr amod bod gofynion rhagnodedig penodol yn cael eu bodloni.

22. Cymal "cadw lle" yw hwn a fydd yn cael ei ddisodli gan ddarpariaethau o sylwedd wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU.

## **Pennod 6 (Darpariaeth Arall)**

### Cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio)

23. Mae'r cymal yn ymwneud â diwygiad cyfreithiol technegol i bwerau gwneud rheoliadau a gorchmynion a geir eisoes yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, er mwyn darparu pwerau datganedig i alluogi darpariaeth ganlyniadol, atodol, ddeilliedig, drosiannol, ddarfodol neu arbed wrth arfer y pwerau hynny. Mae'r cymal hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n diddymu'r darpariaethau nad oes eu hangen mwyach o ystyried y pwerau cyffredinol newydd.
24. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud Rheoliadau a Gorchmynion o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Fodd bynnag, nid yw'r pwerau cyffredinol presennol i wneud offerynnau statudol (ar ffurf Rheoliadau neu Orchmynion) yn cyfeirio'n benodol at wneud darpariaeth ategol. Byddai'r darpariaethau uchod yn cywiro hynny.

## **Rhan 5 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol)**

### **Pennu canlyniadau amgylcheddol**

#### Cymal 116 Pŵer i bennu canlyniadau amgylcheddol

25. Mae'r cymal yn rhoi pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau am Adroddiadau ar Ganlyniadau Amgylcheddol er mwyn pennu canlyniadau amgylcheddol penodedig yn y Deyrnas Unedig neu mewn ardal alltraeth berthnasol. Bydd cydsyniadau perthnasol a chynlluniau perthnasol yn cael eu hasesu yn unol â'r Adroddiadau hynny. Mae'r cymal hefyd yn diffinio "Diogelu'r amgylchedd" yn fras, ac yn rhoi'r diffiniadau cysylltiedig ar gyfer "amgylchedd naturiol" a "threftadaeth ddiwylliannol".

### **Pŵer i wneud adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol yn ofynnol**

#### Cymal 117 Adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer cydsyniadau perthnasol a chynlluniau perthnasol

26. Mae'r cymal yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n golygu ei bod yn ofynnol paratoi adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer cynlluniau perthnasol a chydsyniadau perthnasol. Rhaid i'r adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol asesu'r effeithiau amgylcheddol a ragwelir, gan wneud hynny yn unol â chanlyniadau amgylcheddol penodedig. Rhaid iddo asesu effaith unrhyw fesurau lliniaru neu iawndal arfaethedig, yn ogystal ag ystyried dewisiadau amgen rhesymol yn lle'r cydsyniad neu'r cynllun, neu unrhyw elfen ohonynt. Pan fo angen paratoi adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol, rhaid rhoi sylw i'r adroddiad hwnnw wrth ystyried a ddylid rhoi cydsyniad neu roi cynllun ar waith.

### **Diffinio'r cydsyniadau a'r cynlluniau y mae'r Rhan hon yn gymwys iddynt**

#### Cymal 118 Pŵer i ddiffinio "cydsyniad perthnasol" a "cynllun perthnasol" etc

27. Mae'r cymal yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi mewn rheoliadau pa gydsyniadau a chynlluniau yr ymdrinnir â nhw yn y Rhan hon a hefyd y gofynion i baratoi adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol. Mae hefyd yn

darparu ar gyfer senario lle mae'n rhaid i'r adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol ei hun roi cydsyniad.

### **Asesu a monitro**

#### Cymal 119 Asesu a monitro effaith ar ganlyniadau etc

28. Mae'r cymal yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n nodi sut y dylid asesu a monitro cydsyniadau perthnasol a chynlluniau perthnasol unwaith y byddant yn eu lle.

### **Mesurau diogelu, datganoli ac esemptiadau**

#### Cymal 120 Trefniadau diogelu: dim atchwelyd, rhwymedigaethau rhyngwladol ac ymgysylltu â'r cyhoedd

29. Mae'r cymal yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fodloni ei hun na fydd gwneud rheoliadau am adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol yn arwain at sefyllfa lle y bydd cyfraith amgylcheddol yn darparu lefel gyffredinol o warchodaeth a fydd yn llai na'r hyn a ddarperir gan gyfraith amgylcheddol ar yr adeg y caiff y Ddeddf ei phasio, a bod y rheoliadau hynny'n gyson â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

#### Cymal 121 Gofynion i ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig

30. Mae'r cymal yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Gweinidogion Datganoledig perthnasol pan fo rheoliadau'n cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru.

#### Cymal 122 Esemptiadau ar gyfer amddiffyn cenedlaethol ac argyfyngau sifil etc

31. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo nad oes gofyn paratoi adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol.

### **Gorfodi**

#### Cymal 123 Gorfodi

32. Mae'r cymal yn nodi'r darpariaethau gorfodi y ceir eu gwneud mewn perthynas ag adroddiad ar ganlyniadau amgylcheddol. Caiff y darpariaethau gynnwys troseddau (na ellir roi cosb ar eu cyfer drwy ddeddfryd o garchar), sancsiynau sifil (cosbau ariannol penodedig, gofynion yn ôl disgresiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi), a phwerau mynediad ac archwilio. Mae dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd i ymgynghori ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol wrth wneud rheoliadau sy'n ymdrin â gorfodi.

### **Adrodd**

#### Cymal 124 Adrodd

33. Mae'r cymal yn darparu y caiff rheoliadau am adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus adrodd ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol penodedig, neu i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â hynny.

### **Cyffredinol**

#### Cymal 125 Ymgynghoriadau cyhoeddus etc

34. Mae'r cymal yn darparu'r gofynion i ymgynghori wrth wneud rheoliadau o dan y Rhan hon. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn ag

elfennau craidd y system newydd, ac ymgynghori â'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol am faterion mwy technegol a gweithdrefnol.

#### Cymal 126 Canllawiau

35. Mae'r cymal yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag asesiadau amgylcheddol.

#### Cymal 127 Rhyngweithio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar asesiadau amgylcheddol a'r Rheoliadau Cynefinoedd

36. Mae'r cymal yn sicrhau bod deddfwriaeth a wneir o dan y rhan hon yn gallu rhyngweithio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar asesiadau amgylcheddol, yn ogystal â'r Rheoliadau Cynefinoedd, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau dim atchwelyd.

### **Y Rheoliadau Cynefinoedd**

#### Cymal 128 Diddymiadau canlyniadol i bŵer er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer asesiad amgylcheddol

37. Mae'r cymal yn gwneud diddymiadau canlyniadol i'r pŵer yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddarparu ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.

#### Cymal 129 Rheoliadau am adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol: darpariaeth bellach

38. Mae'r cymal hwn yn manylu ar ddarpariaethau pellach y caiff rheoliadau am adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol eu gwneud, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc. sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddfau neu Fesurau'r Senedd.

#### Cymal 130 Dehongli Rhan 5

39. Mae'r cymal yn darparu dehongliad o dermau allweddol sy'n ymwneud â'r Rhan hon.

### **Rhan 10 (Amrywiol)**

#### Cymal 186: Adolygiad o lywodraethiant etc Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

40. Bydd y cymal yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu adolygiadau cyfnodol o RICS a fydd yn rhoi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol am lywodraethiant a pherfformiad RICS. Diben y cymal hwn yw sicrhau bod RICS yn perfformio er budd y cyhoedd.

#### Cymal 187: Crwydraeth a chardota

41. Mewn perthynas â chymal 187, mae Deddf Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd y DU 2022 yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i Ddeddf Crwydraeth 1824 (sy'n gwneud cardota a chysgu allan yn droseddau) gael ei diddymu. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori'n ddiweddar ar opsiynau ar gyfer disodli Deddf Crwydraeth 1824 ac wedi nodi na fydd y Ddeddf honno'n

cael ei diddymu hyd nes y bydd deddfwriaeth newydd yn ei lle. Cymal 187 o'r Bil yw cam cyntaf y deddfwriaeth honno a fydd yn olynu Deddf 1824.

42. Deallwn mai cymal "cadw lle" yw'r cymal hwn a fydd yn caniatáu i gymal o sylwedd gael ei gyflwyno yn nes ymlaen drwy gyfrwng gwelliant ymlaen wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU.
43. Mae'r cymal "cadw lle" yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth drwy reoliadau a fydd yn gwneud cardota neu gysgu allan yn drosedd, a/neu a fydd yn caniatáu i gosb sifil gael ei rhoi i rywun sy'n gwneud hynny. Mae'r math o ymddygiad y ceir ymdrin ag ef yn y rheoliadau hynny yr un fath neu'n debyg i'r hyn yr ymdrinnir ag ef ar hyn o bryd yn adrannau 3 a 4 o Ddeddf Crwydraeth 1824. Mae cymal 187 hefyd yn rhoi'r gallu i wneud darpariaeth sy'n cynnwys cynorthwyo rhywun sy'n cardota neu'n cysgu allan.

#### Cymal 191

44. Mae Cymal 191 yn rhoi pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol gan gynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

#### **Darpariaethau Perthnasol**

45. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol:

#### Ffyniant bro

46. Mae Llywodraeth Cymru, yn unol â'i chyfrifoldebau datganoledig am ddatblygu economaidd rhanbarthol, wedi gweithio mewn partneriaeth i helpu i fynd i'r afael â heriau economaidd strwythurol hirdymor yng Nghymru a lleihau gwahaniaethau daearyddol rhwng gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae Gweinidogion Cymru'n parhau i chwilio am rôl gyd-benderfynu ar gyfer cytuno ar y canlyniadau a sut y dylid gwario arian sy'n cefnogi'r agenda Codi'r Gwastad; Mae hyn yn helpu i sicrhau polisi ystyrlon ac osgoi dyblygu.
47. Byddai'r Bil hwn, pe bai'n cael ei basio fel y cafodd ei gyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol ar i Lywodraethau'r DU yn y dyfodol greu cenhadaeth fwy hirdymor ar draws ystod eang o faterion datganoledig, a gallai'r camau i'w gwireddu amharu mewn ffordd ymarferol ar amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
48. Ein barn ni yw y gallai'r Senedd basio darpariaethau cyfatebol i'r rhai a geir yn Rhan 1 a gosod yr un rhwymedigaethau yn union ar Weinidogion Cymru i nodi sut y maent yn bwriadu "lleihau gwahaniaethau daearyddol" o ran cyfleoedd economaidd, cymdeithasol neu eraill ledled Cymru; gyda chefnogaeth yr un rhwymedigaethau adrodd, craffu, adolygu etc. yn union fel y'u nodir yn Rhan 1 o'r Bil. Felly, rydym o'r farn y byddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil.
49. Y rheswm am hyn yw am nad yw'r nod o 'ffyniant bro' a lleihau anghyfartaledd daearyddol yn y DU yn fater sydd wedi'i ddargadw. Er na fyddai Gweinidogion



Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Lloegr, byddai gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu er mwyn sicrhau'r un canlyniad o "ffyniant bro" i Gymru.

50. Nid yw diben y darpariaethau yn ymwneud ag unrhyw faterion a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
51. Gwella llesiant pawb yng Nghymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yw cenhadaeth graidd y Llywodraeth hon ac mae'n sail i drywydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) a basiwyd gan Senedd Cymru yn 2015.
52. Trwy Ddeddf 2015, mae gennym fframwaith deddfwriaethol i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gyfan ar gyfer cenhedlaeth heddiw a'r cenedlaethau i ddod. Mae'r darpariaethau yng nghymalau 1-6 y Bil yn cynnwys rhai o'r elfennau y darperir ar eu cyfer eisoes drwy Ddeddf 2015. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau, dangosyddion a cherrig milltir blynyddol a gosod amcanion i lunio'r darparu.
53. Nid mater i Weinidogion Llywodraeth y DU yw gosod targedau ar gyfer y materion hyn yng Nghymru, nac ychwaith adrodd ar gyflawni'r rhain i Senedd y DU. Ni fyddwn i'n argymhell i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau hyn ac ni all gefnogi Rhan 1 o'r Bil.

#### Cynllunio

54. Mae Rhan 3 (Pennod 1), cymal 96, a chymal 112 yn rhoi amryw o bwerau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chynllunio. Mae cynllunio yn fater datganoledig, ac eithrio mewn perthynas â pharagraff 184 o Ran 2 Materion a Gadwyd Penodol o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

#### Asesiad Amgylcheddol

55. Mae Rhan 5 o'r Bil yn disodli system asesu amgylcheddol yr UE gyda fframwaith newydd ar gyfer Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol. Mae'r deddfwriaeth asesu amgylcheddol bresennol yn cwmpasu ystod eang o faterion pwnc y mae deddfwriaeth amgylcheddol bresennol yn cyffwrdd â hwy, gan gynnwys cynllunio, trafndiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir etc. Mewn sawl un o'r meysydd hyn mae materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli. Er enghraifft, mae mater a gedwir yn ôl rhif 184 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru (cynllunio), er y gellid gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion cynllunio a phrosiectau seilwaith eraill sy'n disgyn islaw'r trothwyon ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol (NSIP). Ymhlith y materion perthnasol eraill a gedwir yn ôl y mae mater 97 (olew a nwy) a mater 99 (ynni niwclear). Er gwaethaf materion perthnasol a gedwir yn ôl gellid parhau i wneud darpariaeth arwyddocaol mewn meysydd datganoledig gan gynnwys cynllunio, trafndiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir ac eraill. Er bod rhai meysydd sy'n dod o dan y cymalau arfaethedig yn feysydd a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid cynnwys yr un fframwaith i raddau helaeth ar gyfer adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol mewn Deddf gan y Senedd, ar gyfer y meysydd pwnc hynny sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

## RICS

56. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud ag adolygu RICS, ac nid yw syrfewyr (a syrfewyr siartredig) yn broffesiynau a restrir fel mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 140 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Crwydraeth

57. Mae diddymu Deddf Crwydraeth 1824 a chyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd yn ei lle yng nghymal 187 yn effeithio ar faterion datganoledig tai a digartrefedd. Cymal "cadw lle" yw cymal 187 ac felly bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r cymal hwn wrth iddo ddatblygu ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn unol â hynny.

## Darpariaeth ganlyniadol

58. Mae Cymal 191 yn rhoi pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol, gan gynnwys i ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau o sylwedd sydd hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## **Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

59. Dyma farn Llywodraeth y DU ar feysydd o'r Bil y mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar eu cyfer:

### Meysydd o sylwedd sydd o fewn cymhwysedd

60. Mae'r Bil yn cynnwys tair elfen sy'n rhychwantu Cymru ac sy'n gymwys o ran Cymru, sydd, ym marn Llywodraeth y DU, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru:

- a) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 1 (Data Cynllunio), Pennod 4 (Rhoi a Gweithredu Caniatâd Cynllunio), Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 6 (Darpariaeth Arall), cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio)
- b) Rhan 5 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol)
- c) Rhan 10 (Amrywiol), cymal 186 (Adolygiad o lywodraethiant etc Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)

### Mân feysydd neu feysydd canlyniadol sydd o fewn cymhwysedd

61. Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n gymwys i Loegr ac sy'n cael effaith y tu allan i Loegr ac mae pob un ohonynt, ym marn Llywodraeth y DU, yn fân ddarpariaethau neu'n ddarpariaethau canlyniadol. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio testun y ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, ond dim ond er mwyn diogelu sefyllfa gyfreithiol bresennol Cymru ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ymarferol. Dyma nhw:

- a) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 2 (Cynlluniau Datblygu) (cymalau 82-84) a (Cynlluniau Lleol) (cymal 87) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr
- b) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 3 (Treftadaeth)
- c) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 4 (Rhoi a Gweithredu Caniatâd Cynllunio), cymal 97 (Datblygiad y Goron)
- d) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 4 (Rhoi a Gweithredu Caniatâd Cynllunio), cymal 100 (Hysbysiadau Cwblhau)

- e) Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 5 (Gorfodi Rheolaethau Cynllunio)
- f) Rhan 4 (Ardoll Seilwaith) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr
- g) Rhan 6 (Corfforaethau Datblygu) sy'n gymwys i Gymru a Lloegr

### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

62. Mae'r Bil yn cynnwys rhai darpariaethau yr ydym o'r farn a allai fod o fudd i bobl Cymru.
63. Mae cymal 186 yn ymwneud â RICS. Mae RICS yn gorff proffesiynol ar gyfer syrfewyr, sy'n gweithredu gyda Siarter Frenhinol sy'n darparu bod rhaid iddo hyrwyddo'r budd i'r cyhoedd yn ei weithgareddau rheoleiddio. Bwriad cymal 186 yw galluogi i adolygiadau annibynnol gael eu cynnal i sicrhau bod llywodraethiant a pherfformiad RICS yn golygu ei fod yn gweithredu er budd y cyhoedd, ac i argymhellion gael eu gwneud.
64. Mae gan ddau faes, sef data cynllunio (cymalau 75-77 a 79-81) ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol (cymalau 116 – 130), fuddion posibl i Gymru, ond mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu'r buddion hyn. O ran y buddion, mae'r system asesu amgylcheddol bresennol yn gymhleth ar draws sectorau a meysydd datganoledig. Gwelaf felly fuddion posibl i system well o adrodd ar ganlyniadau amgylcheddol. Byddai system newydd yn osgoi gwrthddweud ac ansicrwydd yn y gyfraith ac yn golygu bod modd creu llwybrau cydsynio llyfn ar gyfer cynlluniau traws-awdurdodaethol. Nid oes modd gwireddu'r buddion posibl gan nad wyf yn derbyn y darpariaethau presennol o ystyried y ffordd y maent yn gymwys o ran Cymru a'n bod yn colli ein gallu i wneud rheoliadau ar gyfer Cymru yn y maes hwn. Mae'r sefyllfa hon yn codi am fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch adroddiadau canlyniadau amgylcheddol mewn perthynas â'r DU gyfan, ac mae cymal 130 (2) yn hepgor adran 71A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref sef pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiadau arfaethedig. Byddai hyn yn dileu'r pŵer presennol i wneud darpariaeth yn y maes hwn.
65. Mae buddion hefyd i ddyluniad gwasanaeth digidol ym maes cynllunio, gan wneud y system yn haws i'w defnyddio, galluogi datblygwyr i weithio'n fwy effeithlon ar draws gwahanol awdurdodau a'i gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data ar draws ardaloedd awdurdodau gwahanol. Byddai hefyd yn hwyluso twf a chystadleuaeth yn y farchnad meddalwedd data cynllunio drwy greu safon gyffredin y byddai cyflenwyr yn gweithio iddi. Unwaith eto, nid yw'r ffordd y mae'r pwerau ar ddata cynllunio wedi'u drafftio (cymalau 75-77 a 79-81) ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'n dyhead i ddeddfu dros Gymru. Byddai'r darpariaethau presennol yn golygu y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn deddfu dros Gymru ambell waith ac ni ddarperir unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i reoleiddio'r modd y mae awdurdodau cynllunio Cymru yn prosesu data cynllunio o dan amgylchiadau eraill.

66. Mae pryderon sylfaenol eraill hefyd gyda'r ffordd y mae'r Bil wedi'i ddrafftio. Mae'r Bil yn cynnwys dwy ddarpariaeth sy'n cael eu nodi fel darpariaethau "cadw lle". Cymal 96 (Pleidleisiau Strydoedd) a chymal 187 (Crwydraeth a chardota) yw'r rhain. Y bwriad yw y bydd y cymalau yn cael eu disodli gan ddarpariaethau o sylwedd yn ystod hynt y Bil. Mae hyn yn creu nifer o broblemau:

- Mae'r cymalau "cadw lle" wedi'u drafftio yn eang ac nid yw'n glir eto a fydd y darpariaethau yn eu lle yn ddarpariaethau perthnasol at ddibenion RhS29.
- Deellir y bwriedir i gymal 187 fod yn gymwys o ran Cymru a Lloegr. Ceisir eglurder ynghylch hyn gan fod y tabl cymhwys yn y Nodiadau Esboniadol yn nodi nad yw cymal 187 yn gymwys o ran Cymru, fodd bynnag, nid yw'r cymal fel y'i drafftiodd ar hyn o bryd, yn cyfyngu ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n gymwys o ran Lloegr yn unig.
- Mae cymal 96 hefyd yn ddarpariaeth "cadw lle". Mae'r tabl cymhwys yn y Nodiadau Esboniadol yn nodi nad yw ond yn gymwys o ran Lloegr, fodd bynnag fel y'i drafftiodd ar hyn o bryd mae'n gymwys o ran Cymru a Lloegr.
- O ystyried natur "cadw lle" y cymalau, nid wyf mewn sefyllfa ar hyn o bryd i nodi a wyf yn cefnogi cymhwyso'r darpariaethau o ran Cymru.

### **Goblygiadau ariannol**

67. Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd gan y Bil cyffredinol oblygiadau ariannol i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, y llywodraeth ganolog a'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd cydbwysedd rhwng y costau hyn a'r arbedion effeithlonrwydd. Nodir isod yr effeithiau a ragwelir ar Gymru.

#### Cymal 1 - 6 (Cenadaethau Ffyniant Bro)

68. Effaith y darpariaethau yw gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i osod, ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni cenadaethau ffyniant bro i leihau anghyfartaledd daearyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r gofyniad i adrodd ar gyflawni cenadaethau ffyniant bro, a chraffu gan Senedd y DU ar gynnydd i gyflawni'r cenadaethau hyn yn gost i Lywodraeth y DU ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar Gymru. Mae effaith gweithredoedd Llywodraeth y DU i gyflawni ffyniant bro y tu allan i gwmpas y Bil.

#### Cymalau cadw lle: Cymal 96 (Pleidleisiau stryd) a Chymal 187 (Crwydraeth a begera)

69. Os yw darpariaethau'n ddarpariaethau cadw lle, nid yw'r cymal yn cynnwys y manylion angenrheidiol i mi nodi a fydd unrhyw oblygiadau ariannol ar Gymru.

#### Rhan 3 (Cynllunio)

70. Bydd gan y newidiadau i'r system gynllunio o dan ran 3 gostau ymglyfarwyddo sy'n gysylltiedig â'r newid. Awdurdodau lleol, busnesau (gan gynnwys busnesau bach a chanolig), a'r trydydd sector lle maent yn cymryd rhan yn y system fydd yn gyfrifol am y gost untro hwn.

Cymal 75,76,77,79,80,81 (Data cynllunio)

71. Bydd y newidiadau o ran darparu, prosesu a gofynion data cynllunio yn golygu costau ariannol i awdurdodau lleol a'r rhai sy'n ymwneud â rhannau penodol o'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd ond yn effeithio yng Nghymru ar ddau faes cyfyngedig. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu mewn meysydd heb eu datganoli, er enghraifft ar gyfer NSIP. Yn ail, mae'r darpariaethau ar hyn o bryd yn berthnasol o ran swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 5 o'r Bil (Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol).
72. Felly, lle sbardunir NSIP neu Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol, byddant yn ddarostyngedig i'r gofynion. Mewn meysydd eraill dyw'r safonau ddim yn berthnasol. Bydd hyn yn creu system data cynllunio ddeuol bosibl yng Nghymru a fydd yn creu anghysondeb, gan gynyddu costau i ddefnyddwyr y system gynllunio. Felly, ni fyddai'n llawn sylweddoli y buddion a nodwyd yn y Bil drwy bontio i system gynllunio digidol gan na fydd yn berthnasol i'r system gyfan yng Nghymru.

Cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio)

73. Mae'r cymal hwn yn ymwneud â diwygiadau cyfreithiol technegol i'r pwerau cyffredinol i wneud offerynnau statudol a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Mae'r diwygiad yn ddiwygiad cyfreithiol technegol bach gyda'r nod o wneud y sefyllfa gyfreithiol yn glir. Does dim canlyniadau ariannol o ganlyniad i'r newid.

Cymal 116-130 (Adroddiad ar y canlyniadau amgylcheddol)

74. Ar hyn o bryd mae'r darpariaethau yn y Bil yn darparu ar gyfer un pŵer cyffredinol i wneud darpariaethau mewn perthynas ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol i gyd-fynd â'r ddau gynllun strategol, a chydysyniadau i brosiect perthnasol. Mae gan y system newydd ynghylch adrodd ar ganlyniadau amgylcheddol botensial ar gyfer arbedion trwy effeithlonrwydd drwy symleiddio'r drefn gydsynio.

Cymal 186 (Adolygiad o lywodraethu ac ati Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS))

75. Bydd y cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu adolygiadau cyfnodol o RICS a fydd yn rhoi gwybodaeth i'r llywodraeth am lywodraethu a pherfformiad RICS, er mwyn bodloni ei hun bod RICS yn perfformio er budd y cyhoedd. Does dim costau i Gymru.

**Casgliad**

76. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'n briodol delio â'r mwyafrif o'r darpariaethau hyn, fel y'u drafftiwyd wrth eu cyflwyno, yn y Bil hwn gan Senedd y DU.
77. Rwy'n cefnogi cynnwys cymal 186 gan ei fod o blaid gwella RICS, a fydd, yn ei dro, yn helpu i wella diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae gan RICS aelodau ar draws y DU (ac yn rhyngwladol) ac rwy'n ystyried bod cynnwys y

ddarpariaeth adolygu hon yn y Bil hwn yn briodol o ystyried cylch gwaith y sefydliad.

78. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Senedd basio darpariaethau sydd gyfwerth â'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 1, felly ni allaf argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau yn Rhan 1.
79. Rwy'n argymhell na ddylid rhoi cydsyniad i'r cymalau hynny o Bennod 1 o Ran 3 sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (cymalau 75, 76, 77, 79, 80 ac 81) am eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu adroddiadau canlyniadau'r amgylchedd y darperir ar eu cyfer yn Rhan 5. Ni allaf gefnogi'r trywydd yn Rhan 5 oherwydd y risg y gall rheoliadau sy'n effeithio ar Gymru danseilio'r hyn a wneir ar hyn o bryd yn y meysydd hyn, sydd wedi'u teilwra'n benodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru.
80. Rwy'n argymhell na ddylid rhoi cydsyniad i gymal 96 gan ei fod yn debygol o gyflwyno dull biwrocraataidd diangen o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau cyfraniad y cyhoedd i siapio'r llefydd maen nhw'n byw ynddyn nhw. Mae angen gwneud hyn mewn modd strategol a chydlynol, sy'n adlewyrchu'r system sy'n seiliedig ar gynllun yng Nghymru.
81. Rwy'n argymhell y dylid rhoi cydsyniad i gymal 112 fel y'i cyflwynwyd gan fod y ddarpariaeth yn egluro hyd a lled y pwerau cyffredinol i wneud offerynnau statudol, sy'n fater sy'n gyffredin i Gymru a Lloegr. Mae paragraffau 23 a 24 o'r LCM yn esbonio'r gwelliant cyfreithiol technegol hwn. Er ei bod yn bosibl i'r Senedd wneud y newid hwn, mae natur dechnegol fân y newid yn golygu yn fy marn i bod y budd a ddaw o'r newid drwy'r Bil hwn yn drech na'r rhagdybiaeth polisi yn erbyn gwneud hynny.
82. Rwy'n argymhell na ddylid rhoi cydsyniad i gymal 191 oherwydd diffyg pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â materion datganoledig.
83. Fodd bynnag, o ran y cymalau a nodwyd ym mharagraff 77 nad wyf yn eu cefnogi ar hyn o bryd, rwy'n agored i gael fy mherswadio ynghylch diwygiadau i ddeddfwriaeth mewn meysydd a fyddai o fudd i Gymru ond a fyddai hefyd yn amddiffyn ein setliad datganoli.
84. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol unwaith y bydd trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU. Os cyflwynir gwelliannau perthnasol neu os cytunir ar welliannau perthnasol at ddibenion RhS29 byddaf yn gosod memoranda pellach yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**Julie James AS**  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**  
**25 Tachwedd 2022**